PROSIECT WICKED

ADRODDIAD CHWARTER BLWYDDYN
IONAWR - MAWRTH 2009
CRYNODEB GWEITHREDOL

TIR COED

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

CRONFA LOTERI FAWR
BIG LOTTERY FUND

COMIC RELIEF

The Princess Royal Trust for Carers

Hilton IN THE COMMUNITY FOUNDATION

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

1. Trosolwg o Weithgareddau Tir Coed:

1. Dan arweiniad yr ysgrifennydd, John Wilding, a chynhaliaeth rheolaidd y Cadeirydd, Simon Hewitt, bu Criw Tir Coed yn cyfarfod yn fisol i drafod cynnydd a materion cyfoes.

2. Mynychodd Simon a John seminar ar brosiect y Porth Ymgysylltu. Prosiect Ewropeaidd ydyw hwn, a weinyddir gan CGGC, ar gyfer ei weithredu yn yr ardal Cydgyfeiriant (Amcan 1 yn flaenorol). Bydd y Porth Ymgysylltu yn creu contractau gyda sefydliadau sydd yn gweithio'n agos â phobl sydd yn anweithredol yn economaidd a'u paratoi ar gyfer y byd gwaith gan ddefnyddio amrywiaeth o weithgareddau ar gyfer adeiladu eu hyder a'u sgiliau er mwyn eu sianelu tuag at gyflogaeth cynaliadwy. Cyhoeddwyd Holiadur Cyn Gymhwyso ym mis Mawrth ac mae'n rhaid ei ddychwelyd erbyn canol mis Mai. Wedi hyn bydd y sefydliadau llwyddiannus yn cael eu gwahodd i dendro ar gyfer darparu gwasanaethau.

3. Cyfarfu'r tîm â Rosa Blanch, Swyddog Datblygu ar gyfer Amgylchedd Cymru. Mae AC yn canolbwyntio ar 3 elfen:
   - yr amgylchedd;
   - gwirfoddolwyr;
   - y Gymuned.

   Oherwydd bod ieuenctid yn cael eu cyfeirio i Brosiect WICKED, ni theimlodd Rosa bod hyn yn cydymffurfio â diffiniad AC o wirfoddoli. Er hyn, byddai unrhyw un o fentrau pellach Tir Coed sydd yn cynnwys gwirfoddolwyr yn gweithio i wella ardaloedd cyhoeddus yn gymwys.
   Gall sefydliadau gofrestru nifer o brosiectau ar yr un tro ac fe ystyrir y ceisiadau bob 5 wythnos.

4. Cyfarfu Simon, John a Gwyneth gydag Elin Jones, y Gweinidog Materion Gwledig, yng nghwmni Mike Pitcher o Gomisiwn Coedwigaeth Cymru. Roedd Gwyneth wedi paratoi cyflwyniad Pwerbwynt ar waith Tir Coed, a diddordebodd y gweinidog yn fawr ar hyn. Dilynwyd y cyflwyniad gan drafodaeth ar sut roedd Cronfeydd Cydgyfeiriant Blaenoriaeth 1 yn eithrio sefydliadau lleol a rhanbarthol rhag ddod yn bartneriaid prosiect, fel â brofwyd gan Tir Coed.

5. Anfonwyd cais i Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm er mwyn cynnal 2 ymweliad gyfnewid diwedd blwyddyn ar gyfer gofalwyr ifanc a fu'n ymwneud â Phrosiect Wicked. Mae Tir Coed yn bwriadu dod â gofalwyr ifanc o Bowys, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin ynghyd mewn dathliad coedlannol preswyl, bydd hwn yn cynnwys crefft coed a gweithgareddau celf. Bydd canlyniad y cais hwn yn cael ei benderfynu erbyn dechrau mis Awst.

6. Bu Gwyneth yn cysylltu â Sefydliad Hilton, sydd yn ariannu Menter Coed Call (rhan o WICKED) ar hyn o bryd, er mwyn trafod ceisio am gyllideb ddilynol ar gyfer y fenter. Argyhoeddwyd Gwyneth nad oedd yn bolisi gan y Sefydliad i gynnig cyllideb ddilynol ar gyfer unrhyw brosiect.

7. Daeth Marty Spittle, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyswllt Ceredigion, i gysylltu â Thir Coed. Mae Cyswllt Ceredigion yn darparu gwasanaeth triniaeth dyddiol ar gyfer unigolion â phroblemau cyffuriau ac alcohol neu anhwylder bwyta; ar hyn o bryd maent yn gweithio mewn partneriaeth â Prism i geisio am arian Ewropeaidd dan adain y prosiect COASTAL, sydd yn ceisio hyrwyddo cyfarwyddo gyrfaol, cyflogaeth,

hyfforddiant sgiliau a chyfleoedd dysgu gydol oes ar gyfer unigolion sydd yn anweithredol yn economaidd ar hyn o bryd, oherwydd salwch, anabledd (salwch meddwl, anabledd dysgu, nam synhwyraidd), problemau o gamddefnyddio sylweddau ac/neu anfantais cymdeithasol difrifol a ddaw o ganlyniad i symud o ofal hirdymor i fywyd oedolyn.
Mae Gwyneth wedi anfon cynnig ar gyfer gweithgareddau coetirol ymarferol gydag achrediadau RhCA posib. bydd cynnig Tir Coed yn cael ei gynnwys yn y tendr i ddarparu gwasanaethau.

8. Derbyniodd Tir Coed £30,000 gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2009 – 10. Bydd y gyllideb hon yn ariannu:
   - Rhan o gyflog Angie Martin;
   - 3 x Mentor i weithio gyda phobl ifanc am 1 diwrnod pob wythnos ar raglenni gwirfoddoli;
   - Y bwlch yng nghyllideb gofalwyr Blwyddyn 3, yn rhan o WICKED, oherwydd lleihad 50% arian Blwyddyn 3 Comic Relief;
   - Costau cyfieithu.

9. Rhoddwyd wybod i Tir Coed nad oedd y cais rhan 1 i raglen *Right Here,* a ariannir gan Sefydliad Paul Hamlyn a'r Sefydliad Iechyd Meddwl, wedi bod yn llwyddiannus. Yr unig adborth a dderbyniwyd oedd bod y nifer o geisiadau wedi bod yn llawer uwch na'r gyllideb oedd ar gynnig.

10. Cynhaliwyd cyfarfod o'r tîm ariannol ym mis Mawrth i adolygu gwariant Blwyddyn 2 WICKED:
    CLF – tanwariant o £250 i'w gario ymlaen i Flwyddyn 3.
    CCGC – wedi ei wario yn gyfan-gwbl.
    Comic Relief – tanwariant o £1,748. Oherwydd problemau staffio gyda sefydliadau gofalwyr ifanc Powys a Sir Gaerfyrddin ni allwyd drefnu unrhyw weithgareddau ar gyfer chwarter blwyddyn diwethaf Blwyddyn 2. Gall y tanwariant ei gario ymlaen i gyllideb Blwyddyn 3.
    Hilton – wedi ei wario yn gyfan-gwbl.
    Gwirfoddolwyr y Mileniwm – ychydig o danwariant i'w gario ymlaen i gyllideb Blwyddyn 3.

11. Cyfarfu'r tîm â Jane Dixon, Ymgynghorydd Datblygaeth y Rhaglen Datblygaeth Cenedlaethol ar gyfer ieuenctid. Roedd adnoddau yn cynnwys syniadau ar ddatblygu sgiliau sylfaenol gan ddefnyddio gweithgareddau ymarferol ar gael am ddim i ymarferwyr sydd yn gweithio gyda ieuenctid, gan gynnwys pecynnau ar goed, creu pyllau a fforio natur.
    Roedd gan Jane ddiddordeb mawr mewn datblygu uned RhCA yn seiliedig ar weithgareddau coetirol.

12. Cyfarfu'r tîm â Richard Woollatt o Cultivations, elusen sydd yn defnyddio garddwriaeth i ddatblygu hyder a hunan barch cyfranogwyr y prosiectau. Cytunodd Cultivations a Tir Coed y byddai yna gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth, yn enwedig ceisiadau ar y cyd am arian, swyddi Mentora a rhannu llyfrau gwaith RhCA, petasai Tir Coed yn medru ymsefydlu yng ngogledd Cymru.

13. Cyfarfu Simon a Gwyneth gyda Rosalind Owen, o Gomisiwn Coedwigaeth Cymru, er mwyn trafod cais am gyllid i ariannu'r elfen "Sgiliau Coetirol a Chefn Gwlad" ar gyfer ysgolion uwchradd ym mhrosiect *Egin* Tir Coed, sydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Ers hyn mae Tir Coed wedi anfon cais cychwynnol ac yn datblygu'r cais llawn.

14 Mynychodd Becky gwrs deuddydd ar 'Ddeall Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang (ADCDF) mewn sefyllfa o Ddysgu Anffurfiol gyda Ieuenctid' yng nghanolfan 'Down to Earth' yng Ngŵyr. Roedd y cwrs yn cynnwys llawer o syniadau ar gynnwys ADCDF mewn gweithgareddau. Daeth Becky i gyfarfod â llawer o gyfranogwyr o Wasanaethau Ieuenctid ac fe gynyddodd ei dealltwriaeth o sut y mae Down to Earth yn gweithredu.

15. Rhwydwaith Coleg Agored:
Adolygwyd yr unedau a llyfrau gwaith RhCA canlynol:

- Celfyddyd Crefft – Gwaith Coed Lefel 1;
- Cyflwyniad i Reoli Ystadau & Sgiliau Cefn Gwlad Lefel 1;
- Rheoli Coetiroedd Cynaliadwy 1: Cyflwyniad i Goetiroedd ar gyfer Bywyd Gwyllt a Phobl;
- Rheoli Coetiroedd Cynaliadwy 2: Cyflwyniad i Reoli Coetiroedd;
- Rheoli Coetiroedd Cynaliadwy 3: Cyflwyniad i Brosesu Pren;
- Adnabod Offer Gwaith Pren;
- Cyflwyniad i Weithio Pren Irlas.

Trefnodd Tir Coed ddigwyddiad Safoni RhCA a Rhwydweithio ar gyfer y tiwtoriaid a'r Gweithwyr Cynhaliol. Mae hwn yn ofyniad RhCA, er mwyn sicrhau bod pob Tiwtor yn cyflwyno unedau RhCA i'r un safon.
Prif destunau sesiwn y bore oedd:

- Ymrwymo a Chymhelli ieuenctid;
- Cynnal cyflwyno cyrsiau RhCA;
- Sut i ymdrin â gwaith papur RhCA.

Roedd copïau o unedau a llyfrau gwaith Tiwtoriaid gwahanol ar gael i'r cyfranogwyr bori drostynt.
Treuliwyd y prynhawn yn derbyn adborth o'r cyfranogwyr ar ba ardaloedd, yn eu tyb hwythau, y dylai Tir Coed ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol.
Roedd yna gytundeb ar y pwyntiau canlynol:

- Dylai pob person ifanc gael profi gweithgareddau coedlannol ac hyfforddiant sgiliau, nid dim ond y garfan 'fregus' neu'r 'datgyweddadwy';
- Roedd angen cynllun Mentor ar gyfer y ieuenctid â fu'n cyfranogi ar raglenni Tir Coed, wrth iddynt ganlyn llwybr eu gyrfa neu fynychu cyrsiau coleg neu lleoliadau gwirfoddol/gwaith.

2. Gweithgareddau yn y bumed chwarter wedi eu rhestri dan fentrau unigol prosiect WICKED:

(Gan gynnwys cyrhaeddiad yn erbyn targedau ac adborth)

a) Cynllun MES

(Gweithgareddau seibiant i Ofalwyr Ifanc)

Gofalwyr Ifanc Powys:

Ni fu'n bosib trefnu gweithgareddau dros hanner tymor mis Chwefror oherwydd toriad sydyn yng nghyllideb Gofalwyr Ifanc Powys, â fu'n achos ymddiswyddo'r ddau Weithiwr Gweithgareddau.
Mae Gweithwyr Allanol y Gofalwyr Ifanc yn trefnu amserlen newydd ar hyn o bryd er mwyn sicrhau gweithgareddau'r haf.

Gofalwyr Ifanc Ceredigion:

Lansiad Tîm Teulu – Aberaeron

Penderfynodd Tîm Teulu (LINCS Ceredigion yn flaenorol) ei bod yn mynd i gael digwyddiad mawr i nodi ei bod wedi newid ei henw yn ystod hanner tymor mis Chwefror.
Anelwyd y digwyddiad at deuluoedd bregus er mwyn galluogi cynhwysiant a chyfranogiad ac fe fynychodd dros 300 person.
Gwahoddwyd Tir Coed i'r digwyddiad hwn oherwydd ein cysylltiadau â Chroes Goch Prydain, Gofalwyr Ifanc Ceredigion a LINCS, a fu'n cynorthwyo rhai o'r prosiectau Coed Call gydag achrediadau RhCA.
Gofynnwyd i Tir Coed ddarparu gweithdai ymarferol er mwyn arddangos ein gwaith ond hefyd i ddarparu gweithgareddau hwyl ar gyfer ieuenctid dros 8 mlwydd oed. 'Môr Ladron' oedd thema'r prynhawn ac felly creu gweithgareddau gan ddefnyddio pren ar y thema hon oedd ein tasg. Anghofiwyd ein syniadau ar goesau pren a pharotiaid, clytiau llygaid a chleddyfau er mwyn canolbwyntio ar longau môr ladron!

Darparodd Jamie Miller a Tony Eames arbenigedd ar weithio pren irlas a buont yn frysur iawn drwy gydol y diwrnod, gyda llawer o unigolion brwdfrydig yn ceisio sgiliau newydd. Roedd rhai o'r rhieni, neiniau a theidiau yn barod iawn i geisio hefyd!

Roedd casglu adborth yn dasg anodd iawn yn yr achos hwn, oherwydd mae aelodau o'r cyhoedd oedd y cyfranogwyr, nid criw sefydlog. Dyluniwyd map trysor i fesur teimladau'r cyfranogwyr ar y weithgaredd. Rhoddodd pob cyfranogydd a farciodd y map groes ger y gair 'Enjoyable'. Cofnod gweledol bod pawb wedi mwynhau!

Gofalwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin:

Mae criw Gofalwyr Ifanc Barnardos Sir Gaerfyrddin wedi tyfu cymaint nes eu bod wedi eu rhannu i 3 criw gwahanol, sef:

1. Gofalwyr Ifanc 11 mlwydd oed a throsodd, Ardal y Dwyrain
2. Gofalwyr Ifanc 11 mlwydd oed a throsodd, Ardal y Gorllewin
3. Gofalwyr Ifanc 4 – 10 mlwydd oed.

Ni gynlluniwyd unrhyw weithgareddau Mes ar gyfer Gofalwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin dros hanner tymor mis Chwefror, oherwydd prinder dros dro gweithwyr gweithgareddau Barnardos. Mae gweithgareddau'r Pasg wedi eu cynllunio fel yr arfer.
Cyfarfu Becky â gweithwyr Barnardos ym mis Mawrth er mwyn cynllunio ar gyfer rhaglen yr haf. Bydd Becky yn datblygu holiadur i asesu pa weithgareddau yr hoffai'r gofalwyr ifanc gyfranogi ynddynt.

b) Menter Gweithio'r Goedwig

(Ar gyfer ieuenctid 16 i 19 mlwydd oed sydd ddim mewn addysg, swydd, nac hyfforddiant.)

Powys

Mae rhaglen Powys ar gyfer y flwyddyn hon wedi ei hamserlenni ar gyfer mis Hydref.

Cynorthwywyd un o brentisiaid rhaglen y flwyddyn ddiwethaf i gwblhau ei hachrediad Ysgol y Goedwig RhCA Lefel 1. Mae'n bwriadu cyflawni ei Lefel 2 yn y dyfodol.

Ceredigion:

Prosiectau'r Wasanaeth Troseddu Ieuenctid

1. **Adeiladu Storfa ar Fferm Denmarc**

   Cynhaliwyd seremoni gwobrwyo ar Fferm Denmarc ar Fawrth 3ydd er mwyn cyflwyno tystysgrifau RhCA i'r bechgyn a fu'n ymwneud ag adeiladu'r storfa. Bu pawb yn cyd fwyta ac fe brintiwyd erthygl yn y Cambrian News ar y digwyddiad. Mae Swyddogion Prosiect Tir Coed wedi medru canfod cyfleoedd dilynnol ar gyfer y 3 cyfranogydd ers hyn.

   Mae Prentis 1 wedi symud i raglen rheoli coetiroedd RhCA y GTI yng Nghoed Tamsin – gweler isod.

   Mae Prentis 2 hefyd wedi cyfranogi yn rhaglen y GTI yng Nghoed Tamsin ac mae wedi ymrwymo i gychwyn ar raglen mentor Gwirfoddol Tir Coed gyda Bob Shaw yn yr haf.

   Ni gyflawnodd Prentis 3 i'r un radd wrth adeiladu'r storfa, ond mae nawr yn gweithio yn dda iawn gyda Ben Gray ym mhrosiect Coed Call Pen yr Allt.

2. Hyfforddiant Rheoli Coetiroedd Coed Tamsin

Cyflawnodd 5 person ifanc o'r Wasanaeth Troseddu Ieuenctid 3 x uned Rheoli Coetiroedd RhCA, dan arweiniad Bob Shaw gyda chymorth Dave Hoyle.

Daeth 3 bachgen o'r tîm atal troseddu a daeth 2 fachgen hŷn oherwydd eu bod yn Gwneud yn Iawn. Gweithiodd y gymysgedd o oedrannau yn dda iawn; wrth i'r cwrs ddatblygu, datblygodd y 2 fachgen hŷn sgiliau arweinyddiaeth gan gynorthwyo i oruchwylio'r eraill a'u cynorthwyo i gyflawni'r tasgau.

Cyflawnodd pob cyfranogydd llawer mwy na'r disgwyl dros y 6 sesiwn ac o ganlyniad, roedd pob un yn teimlo'n fwy hyderus wrth weithio gydag eraill.

Derbyniodd pob un ohonynt 3 uned RhCA yr un mewn Rheoli Coetiroedd.

Roedd y tiwtor yn hyblyg iawn, gan adael i'r ieuenctid ddatblygu eu syniadau a'u dyluniadau eu hunain. Yn rhan o'r uned mewn gweithio coed irlas, cynhyrchwyd ystod o wrthrychau, o gyrn bwyeill a chlwyd ar gyfer yr ardd (ar gyfer Sul y mamau) i fwrdd syrffio o bren!!

Sir Benfro:

Dyma grynodeb o gynnydd datblygiad gyrfa rhai o'r ieuenctid a fu'n ymwneud â sesiynau blasu Gweithio'r Goedwig yn ystod haf 2008.

Datblygiad Gyrfa:

1. Cyfranogydd E – Bu Becky yn ceisio darganfod nifer o opsiynau gyrfa ac hyfforddiant ar gyfer y llanc hwn gan ei fod yn weithiwr ac adeiladwr coed medrus. Ni fanteisiodd ar unrhyw un o'r cyfleoedd a gynigiwyd iddo oherwydd diffyg hyder a thrafnidiaeth. Ond, erbyn hyn, mae wedi dod yn Wirfoddolwr y Mileniwm gyda Tir Coed ac mae'n cynllunio i gynorthwyo yn ystod rhaglen Gweithio'r Goedwig 2009 yn Sir Benfro.

Cynllunnir i raglen Gweithio'r Goedwig 2009 ddechrau gyda sesiynau blasu ym mis Ebrill. Gwneir hyn mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth y Tywysog Cymru yng Nghoedlan Gymunedol Nant-y-Cwm.

Sir Gaerfyrddin:

Nid oes yna unrhyw gynlluniau ar gyfer cynnal rhaglen Gweithio'r Goedwig yn Sir Gaerfyrddin yn 2009 oherwydd y nifer fawr o raglenni yng Ngheredigion, diffyg cyfeiriadau o Sir Gaerfyrddin yn y gorffennol a diffyg ariannol ac amser staff.

Rhaglen Gwirfoddolwyr y Mileniwm (GM):

Rheolir y rhaglen gwirfoddoli hyn gan CGCC ac fe'i dargedir at ieuenctid rhwng 16 a 25 mlwydd oed; cofrestrwyd 3 person ifanc.

Mae'r 2 Wirfoddolwr y Mileniwm sydd yn gweithio ar weithgareddau addysg cadwriaethol ac amgylcheddol ar Fferm Denmarc wedi cwblhau 100 awr o wirfoddoli. Mae un ohonynt, sydd ar fin cyrraedd 200 awr wedi cyfranogi mewn cwrs plygu sietyn yng Ngholeg Copicewood. Rydym yn falch iawn o'u cynnydd.

Mae un cyfranogydd, a fu'n ran o raglen Gweithio'r Goedwig Powys yn 2008, yn cynorthwyo wrth sefydlu safleoedd Ysgol Goedwig ger Y Drenewydd; mae hi hefyd yn gwirfoddoli yng Nghanolfan Galw Heibio Iechyd Meddwl Y Drenewydd. Cafodd ei chyflwyno â thystysgrif gwirfoddoli 100 awr yn ddiweddar.

Rhaglen Mentora Gwirfoddolwyr

O ganlyniad i'r gyllideb o £30,000 o Gomisiwn Coedwigaeth Cymru, mae Tir Coed nawr yn medru cynnig Rhaglen Mentora Gwirfoddolwyr yn rhan o brosiect WICKED. Golyga hyn y bydd ieuenctid sydd wedi bod ar raglen flasu Gweithio'r Goedwig ac sydd yn dangos diddordeb mewn dysgu pellach, ond sydd angen ychydig o gynhaliaeth personol/emosiynol, yn medru derbyn y cymorth hwn o griw o 3 neu 4 mentor. Gobeithiwn hefyd y bydd y rhan fwyaf o'r ieuenctid hyn yn cofrestri yn Wirfoddolwyr y Mileniwm.
Bydd y rhaglen hon yn cychwyn ym mis Mehefin – bydd adroddiad cyflawn yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad cynnydd chwarter blwyddyn nesaf.

c) Menter Coed Call

(Ar gyfer ieuenctid 14-16 mlwydd oed sydd wedi, neu mewn perygl o, gael eu heithrio o'r ysgol.)

Powys

Coed Mathrafal:

Bu'r criw hyn, o Ysgol Uwchradd Llanfair Caereinion, yn cyflawni nifer o weithgareddau amrywiol yn ystod y tymor, gan gynnwys sesiynau coedwriaeth dan arweiniad Pete Williams, bu hwn yn weithgaredd poblogaidd iawn.
Buont hefyd yn adeiladu lloches dros dro a chwrs ymosod.
Daeth sesiynau'r criw hwn i ben yng nghanol mis Mawrth.

Coed Allt Goch:

Bu'r criw hwn, o Ysgol Uwchradd Llanidloes, yn cyflawni nifer amrywiol o weithgareddau yn ystod y tymor, gan gynnwys Cyfeiriannu, ailosod meinciau a chynnal a chadw cerflun helyg yn y goedlan.
Daeth sesiynau'r criw i ben ar ddechrau mis Mawrth oherwydd bod angen iddynt ganolbwyntio ar eu taith antur Gwobr Dug Caeredin.
Roedd y criw wedi gobeithio gwneud ychydig o waith clirio llystyfiant mewnwthiol yn y goedlan, ond wedi i arweinydd y weithgaredd ei ohirio ddwywaith, nid oedd amser yn caniatáu iddynt orffen y gwaith.

Coed Cefn, Llandrindod:

Prosiect 7 wythnos ar gyfer ieuenctid yn Sir Faesyfed sydd yn derbyn eu haddysg yn y cartref oedd hwn. Cynhaliwyd y prosiect mewn partneriaeth â Gwasanaeth Ieuenctid Powys a Gyrfaoedd Cymru.
Bu 6 person ifanc yn cyfranogi. Y bwriad oedd iddynt gyflawni uned RhCA Lefel 1 – "Rheolaeth Coetirol Cynaliadwy 3 – Cyflwyniad i brosesu pren".
Darparwyd sesiwn hyfforddi 1 diwrnod ar gyfer y gweithwyr cynhaliol er mwyn eu paratoi ar gyfer y prosiect.
Roedd y prosiect hwn yn heriol iawn am ddau reswm:
1. Roedd y ieuenctid dan sylw heb feithrin sgiliau cymdeithasol digonol, ac heb weithio yn rhan o griw yn y gorffennol, ac felly roedd yn anodd iawn mynd i'r afael â hwy;
2. Ni osododd y gweithwyr cynhaliol unrhyw reolau pendant ac roedd yna ddiffyg disgyblaeth cyffredinol a anwybyddwyd gan y staff.

Oherwydd hyn, roedd darparu'r uned RhCA, yn enwedig gorffen y taflenni gwaith yn dasg anodd iawn i'r Tiwtor.
Fodd bynnag, oherwydd dyfal barhad y Tiwtor, derbyniodd 5 allan o'r 6 cyfranogydd achrediad RhCA.

Ceredigion:

Pen Yr Allt: Rheolaeth Coetiroedd a Chefn Gwlad

Mae'r prosiect hwn yn parhau i lwyddo ac mae'r 4 person ifanc gwreiddiol yn parhau i ddatblygu eu sgiliau coetirol.

Mae llwyddiant y criw hwn wedi ennyn diddordeb y Wasanaeth Cynhwysiant Addysgol ac fe ychwanegwyd mwy o gyfeiriadau yn ystod y rhaglen gan chwyddo nifer y cyfranogwyr gan 2/3. Achosodd hyn newid sylweddol i ddeinameg y criw, a bu'n rhaid i'r cyfranogwyr gwreiddiol ymaddasu mewn modd cyfrifol a chynhaliol. Cyflawnwyd hyn o ganlyniad i'w aeddfedrwydd cynyddol a'u dealltwriaeth newydd o anghenion eraill; gyda chynhaliaeth a brwdfrydedd parhaus a dull hwyluso Ben Gray.

Uned RhCA y tymor hwn oedd 'Prysgwyddo'. Enillodd pob person ifanc 3 chredyd ar gyfer y cymhwyster Lefel 1 hwn.

Dysgu yn yr Awyr Agored:- Drymio

Bu'r prosiect hwn yn weithredol o hanner tymor mis Chwefror hyd y Pasg. Bu criw o 4 unigolyn, 2 ohonynt heb unrhyw brofiad blaenorol o Goed Pen-yr-Allt yn cyfranogi yn y gweithdai. Llwyddodd 3 allan o'r 4 cyfranogydd gyflawni'r cymhwyster RhCA Lefel 1 uchod.

Cafwyd gyflwyniad i lawer o ddrymiau llaw ac offerynnau taro trwy gyfrwng gweithdai cyfranogol. Bu'r ieuenctid yn dysgu ar sut y mae sain yn cyseinio & thrawiad & rhythm mewn perthynas â'r modd y mae'r llaw yn taro'r drwm a thechnegau drymio. Erbyn diwedd y rhaglen roedd pawb yn medru perfformio yn unigol yn rhan o gyfanwaith y criw. Ynghyd â'r drymio, cynigwyd nifer o brofiadau yn ymwneud â fyd natur i'r criw, gan gynnwys taith dywys drwy'r coed neu ar hyd y traeth, adnabod coed a bywyd gwyllt, trafod materion amgylcheddol a choginio ar losgyddion golosg.

Sir Gaerfyrddin:

Mynydd Mawr

Mae'r criw hwn yn parhau i gynnig amryw o brofiadau ar gyfer y ieuenctid o'r ganolfan.

Mae 10 person ifanc wedi manteisio o ymweld â'r parc gwledig yn reolaidd y tymor hwn. Fodd bynnag, dim ond 5 unigolyn sydd wedi cofrestru i weithio ar 2 uned RhCA – 'Adnabod Offer Gwaith Coed' Lefel Mynediad 3 a 'Cyflwyniad i Weithio Coed Irlas' Lefel 1.

Darparodd Tony Eames 4 sesiwn yn diwtor arbenigol, yn canolbwyntio ar bob agwedd ymarferol o'r cwrs. Roedd y criw yn un heriol ac nid oeddent yn dangos llawer o ddiddordeb i gwblhau'r gwaith ymarferol na'r gwaith ysgrifenedig angenrheidiol.

Fodd bynnag, disgleiriodd un seren yn y gwyll, sef yr unig ferch yn y criw, gan ddangos yr hyn a ellir ei gyflawni gydag ychydig o ymdrech a dyfal barhad.
Hi fydd yr unig un i lwyddo yn y ddau uned RhCA ar hyn o bryd, ni lwyddodd y gweddill i gyflawni pob elfen o'r uned 'Cyflwyniad i Weithio Pren Irlas'. Sylweddolodd rhai, er yn rhy hwyr, y gallent wedi cyflawni mwy!

Oherwydd hwn oedd y tro cyntaf i'r ganolfan ymwneud â RhCA, rhoddwyd gryn gymorth iddynt ddarparu a gweinyddu'r unedau hyn. Nawr mae gan y gweithwyr well ddealltwriaeth o anghenion darparu unedau RhCA, ac er y byddwn yn parhau i gynnig cymorth yn y dyfodol, byddwn yn eu hybu i ddatblygu'r rhain mewn modd mwy annibynnol.

Elfen arall o'r cymorth a roddwyd, er mwyn galluogi i'r prosiect bod yn fwy cynaliadwy yn y dyfodol, ydyw'r hyfforddiant ar weithio pren irlas a roddwyd i aelod arall o weithlu'r

ganolfan ar gwrs Coleg Coppicewood. Mae yna ddigon o frwdfrydedd i gynnal y cwrs yn y ganolfan, yr unig beth sydd ei angen nawr yw'r hyder i weithredu'r holl elfennau gyda'u gilydd.

Sir Benfro:

Ysgol Penfro

Bu'r criw hwn o 9 person ifanc ag anawsterau dysgu yn parhau i weithio gyda helyg ar Gomin Cilgeti, gan greu palis o helyg byw gyda chymorth Jo Steadman. Maent yn parhau i weithio tuag at eu Gwobrau John Muir, ac wedi cychwyn uned RhCA Lefel 1 'Celfyddyd Crefft – Gwaith Coed'. Mae'r uned RhCA braidd yn heriol ar gyfer y criw hwn, ond gyda chynhaliaeth ac ymrwymiad y Gweithwyr Ieuenctid, Anthony Harris & Melody Abbott, fe ddylent ei gyflawni.

Bu'r criw yn creu mwy o flychau trychfilod a'u gosod yng Nghilgeti. Buont hefyd yn ymweld â Gweithdy Coedlan Cilrhedyn, ger Dinbych-y-Pysgod, i ddefnyddio'r peiriant cafnu wrth greu placiau enw ar gyfer eu hystafelloedd adref a dysgu am y gwahanol fathau o beiriannau. Oherwydd i'r Adran Anghenion Arbennig drefnu teithiau ar ddyddiau rhai o'r sesiynau a dyddiau hyfforddiant ar gyfer y Gweithwyr Ieuenctid, cafwyd dim ond 6 sesiwn yn ystod y chwarter hon.

Ysgol Sir Thomas Picton

Mae'r criw Coed Call hwn wedi parhau eu cynnydd yn dda, gyda llawer o ddiolch yn mynd i sgiliau rhwydweithio yr Hyfforddwraig Dysgu Margaret Ridgeway, sydd yn eu harwain. Bu'r criw yn cyflawni llawer o dasgau sydd yn angenrheidiol i ennill cymhwyster RhCA Lefel 1 ar Sgiliau Cefn Gwlad a Chynnal a Chadw Ystadau. Bu'r tasgau yn cynnwys creu llwybrau troed (yn y Parc Cenedlaethol ac yng ngardd coedlannol yr ysgol), cwympo coed, plannu coed, adeiladu ffensys a glanhau ffosydd. Rydym yn falch iawn cyhoeddi bod y criw Coed Call hwn wedi ennill Gwobr Ysgolion y Parc Cenedlaethol am eu gwaith yn y Parc gyda'r Warden, Haydn. Bu'r BBC yn ffilmio rhai o weithgareddau'r criw er mwyn eu cynnwys ar wefan newydd i ddangos barn ieuenctid. Ewch i: http://www.bbc.co.uk/wales/ps/stories/113741.shtml

Bu gweithgareddau eraill yn cynnwys plethu helyg gyda Jo Steadman, rhywbeth a werthfawrogodd yr aelodau mwy artistig yn fawr. Bu Jamie Miller yn ymweld â'r criw er mwyn trafod dyluniad gweithdy i'w leoli yng ngardd coedlannol yr ysgol, fe adeiladir hwn yn nhymor yr haf.

Hyfforddiant ar gyfer Gweithwyr Cynhaliol:

Tynnwyd yr uned OCR (Achrediad Rhydychen a Chaergrawnt) Lefel III ar Reoli Diogelwch Oddi Ar y Safle yn ôl gan y darparwr, hwn oedd y cymhwyster yr oedd Tir Coed wedi bwriadu ei ddarparu ar gyfer Gweithwyr Ieuenctid a Chynhaliol yn rhan o Brosiect WICKED. Mae'n debyg nad oes yna gymhwyster cyffelyb yn bodoli.

Ym marn Tir Coed, mae hyfforddiant achredadwy ar gyfer Gweithwyr Ieuenctid sydd yn arwain gweithgareddau gyda ieuenctid yn hanfodol i gynaliadwyaeth Prosiect WICKED. Felly, mae'r Swyddogion Prosiect ar hyn o bryd yn datblygu 2 x uned RhCA Lefel 2 ar Ddysgu yn yr Awyr Agored, y bwriad ydyw cynnig y cwrs hwn i Weithwyr Ieuenctid a Cynhaliol yn yr hydref.

Diwedd y Grynodeb Gweithredol